**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/0455/25

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Mai 2025

Annwyl Llŷr,

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 6 Mai 2025. Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2025 ('y Rheoliadau'). Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd ar gael yma.

Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chawsant eu gosod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 08 Mai 2025. Y dyddiad cychwyn yw 30 Mai 2025.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud gan Weinidogion Cymru, y tro hwn ystyrir ei bod yn briodol i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, maent yn effeithio ar fioddiogelwch Prydain Fawr – mater sydd wedi cael ei ystyried ar y cyd yn draddodiadol. Mae Prydain Fawr yn ynys ac nid yw plâu a chlefydau planhigion yn parchu ffiniau rhwng gwledydd. Mae llawer o'r Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion. Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod drwy borthladdoedd Lloegr. Byddai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn creu risg o weld gwahaniaeth ar faterion bioddiogelwch – maes lle mae polisïau'n cyd-fynd ar hyn o bryd. Gallai hyn rwystro camau gorfodi gan gyrff trawsffiniol a rhoi baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (sy'n gorfodi iechyd planhigion ledled Cymru a Lloegr) a busnesau. Ble mae polisi'n cyd-fynd, mae deddfu ar lefel Prydain Fawr yn cynorthwyo'r rhanddeiliaid hynny y mae'n rhaid iddyn nhw gydymffurfio â'r gofynion o fewn y ddeddfwriaeth i gynnal ein bioddiogelwch.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn ac mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth na chafodd ei gwneud yn ddwyieithog.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs